**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**15 Gorffennaf 2015**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Cyfarwyddwr Arweiniol (Cadeirydd Bwrdd Rheoli) GwE** |
| **Pwnc:** | **Achos Busnes - Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r achos busnes derfynol er cymeradwyaeth.

## 2.0 Cefndir

2.1 Cyhoeddwyd dogfen ganllaw'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014.

2.2 Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 25 Chwefror2015, cymeradwywyd adroddiad y Bwrdd Rheoli yn nodi'r cyfeiriad a ffafrir ar gyfer alinio trefniadau'r rhanbarth gyda'r Model Cenedlaethol.

2.2 O ganlyniad i gefnogaeth y Cyd-bwyllgor i'r cyfeiriad a ffafrir, mae'r achos busnes terfynol hwn yn crynhoi'r sefyllfa bresennol fesul maes gwaith, yn asesu'r opsiynau posib ac yn argymell yr ymyraethau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni.

## 3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r ymyraethau canlynol fesul maes gwaith:

- Cyngor a Chefnogaeth i Lywodraethwyr (tudalen 10 o'r adroddiad)
- Y Cyfnod Sylfaen (tudalen 10 o'r adroddiad)
- Llwybrau Dysgu 14 – 19 (tudalen 12 o'r adroddiad)
- Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg a Grant y Gymraeg Mewn Addysg (tudalen 13 o'r adroddiad)

- Cydlynu Rhanbarthol y Strategaeth TGC  (tudalen 14 o'r adroddiad)
- Cefnogaeth Adnoddau Dynol Arbenigol  (tudalen 14 o'r adroddiad)

3.2 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor ddirprwyo'r cyfrifoldeb o gynllunio a gweithredu ar yr ymyraethau i Fwrdd Rheoli GwE

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â'r newidiadau ac eithrio cost o £10,000 y flwyddyn i gomisiynu ymgynghorydd ar gyfer monitro ac adrodd ar y safon o gefnogaeth a gynhigir i Lywodraethwyr).

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Atodiadau**

7.1 Achos Busnes – Model Genedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (ynghyd ag atodiadau 1-5 ac A-C)

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar benderfyniad y partneriaiad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol yn 2014. Penderfynwyd ar y pryd weithredu'r Model fesul cam yn amodol ar achos busnes a chynllun trosglwyddo cefnogol. Bwriad y cynllun a argymhellir yw cyfarch y gofyn yma. Fodd bynnag mae angen sicyrhau fod y trefniadau comisiynu a darparu yn cael eu ffurfioli ble mae GwE yn derbyn gwasanaethau drwy law yr awdurdodau. Mae hefyd angen adolygu  strwythurau ehangach ble gosodir rol benodol a newydd i GwE er cydnabod  a chyfarch y cyfrifoldebau ac atebolrwydd a osodir ar y Gwasnanaeth.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyflwynir sylwadau ar lafar yn y cyfarfod.